Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Meatoplasti/ Canalplasti

# Cyngor ar Ryddhau

**Meatoplasti/Canalplasti:**
Mae'r triniaethau uchod yn cyfeirio at lawdriniaeth i ledu tiwb y glust. Mae'r meatoplasti yn cyfeirio at ledu rhan allanol tiwb y glust sy'n cynnwys cartilag. Mae canalplasti yn cyfeirio at ledu rhan esgyrnog ddofn tiwb y glust drwy lawdriniaeth. Gellir gwneud y ddwy driniaeth yma ar yr un pryd.

**Anaf**
Mae 2 fath cyffredin o glwyfau llawfeddygol o ran llawdriniaeth tiwb y glust. Mae'r rhain yn cynnwys blaen-awricwlar (clwyf o flaen y glust) a'r ôl auricular (clwyf y tu ôl i'r glust). Bydd gan gleifion rwymyn pen ar ôl y lawdriniaeth. Cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, bydd y rhwymyn pen yn cael ei dynnu gan y tîm meddygol. Bryd hynny byddant yn edrych ar y clwyf er mwyn gweld a oes unrhyw broblemau.
Os byddwch yn cael y lawdriniaeth fel claf dydd, byddwch yn cael cyngor ar sut i dynnu'r rhwymyn eich hun y diwrnod canlynol.
Byddwch yn cael gwybod os oes gennych bwythau hydawdd neu os oes gennych bwythau nad ydynt yn hydawdd sydd angen eu tynnu. Gall nyrs practis eich Meddyg Teulu dynnu pwythau sydd angen eu tynnu (6-10 diwrnod ar ôl llawdriniaeth fel arfer). Bydd angen i chi wneud apwyntiad gyda nyrs eich practis er mwyn trefnu hyn.
Mae'n bwysig cadw'r glust yn sych ar ôl y lawdriniaeth. Yn benodol, ceisiwch osgoi golchi eich gwallt nes bod y pwythau wedi'u tynnu. Efallai y byddwch am roi cynnig ar siampŵ sych os yw eich gwallt yn teimlo'n oeliog. Mae'n bwysig hefyd cadw tiwb y glust yn sych ar ôl y lawdriniaeth (nes bod y llawfeddyg wedi dweud yn wahanol wrthych) drwy ddefnyddio darn o wlân cotwm â Vaseline arno pan fyddwch yn y bath/cawod. Peidiwch â rhoi eich pen o dan y dŵr.
Pe bai eich clwyf yn mynd yn llidus neu'n dechrau agor ar ôl ylawdriniaeth, bydd angen i chi gael eich gweld gan naill ai'r ystafell driniaeth ENT neu'ch Meddyg Teulu. Mae manylion cyswllt yr ystafell driniaeth ENT ar y daflen hon.

**Pecyn tiwb y glust:**
Fel arfer, mae pecyn yn cael ei roi yn nhiwb y glust yn ystod llawdriniaeth er mwyn cadw tiwb y glust ar agor ac i leihau'r risg o haint. Y math mwyaf cyffredin o becyn a ddefnyddir yw BIPP (gwe rhuban wedi'i socian mewn past paraffin iodin bismuth)

sy'n felyn o ran lliw. Yn aml defnyddir mwy nag un darn. Bydd y pecyn hwn yn cael ei dynnu mewn clinig fel arfer tua 3 wythnos ar ôl y lawdriniaeth.

Yn anaml iawn, gall adwaith alergaidd i becyn BIPP ddigwydd. Bydd hyn fel arfer yn arwain at chwyddo a phoen o gwmpas tiwb y glust. Yn y sefyllfa hon cysylltwch â'r ystafell driniaeth ENT/eich ward derbyn er mwyn trefnu i'r glust gael ei hasesu gan y meddyg ENT ar alwad

Efallai y bydd angen tynnu'r pecyn BIPP yn ogystal â gosod math gwahanol o becyn.

Os yw’r gwe rhuban yn dechrau dod allan o diwb y glust, peidiwch â’i wthio'n ôl i mewn na'i dynnu allan. Defnyddiwch siswrn i dorri'r pen rhydd i ffwrdd.

**Amser a gymerir i wella:**

Mae’r poen ac anesmwythdra’n tueddu i fod yn ysgafn ac mae fel arfer yn gwella o fewn ychydig ddyddiau. Byddwch yn cael cyngor gan eich nyrs ar leddfu poen cyn i chi gael eich rhyddhau. Mae'r rhan fwyaf o gleifion angen 2-3 wythnos i ffwrdd o'r gwaith/ysgol er mwyn gwella. Ni argymhellir codi unrhyw beth trwm/straenio/ gwneud ymarfer corff anodd yn ystod y cyfnod hwn.

**Hedfan:**

Ni ddylech ystyried hedfan tan ar ôl eich apwyntiad cleifion allanol cyntaf (3-4 wythnos yn dilyn y lawdriniaeth). Gall eich llawfeddyg eich cynghori ar y pwynt yma pryd y gallwch drefnu i hedfan.

**Camau Dilynol:**

Dylech gael eich gweld yn y clinig cleifion allanol tua 3-4 wythnos ar ôl eich llawdriniaeth. Bryd hynny bydd y pecyn yn cael ei dynnu o diwb y glust a bydd y glust yn cael ei harchwilio. Efallai y bydd eich ymgynghorydd yn penderfynu mewnosod rhagor o becynnu i'ch clust er mwyn helpu'r broses wella. Os na fyddwch yn derbyn gohebiaeth ynglŷn â’r apwyntiad hwn, ffoniwch y swyddfa trefnu apwyntiadau cleifion allanol ar 01495765055.

**GWYBODAETH AR BETH I’W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI’U RHYDDHAU O’R YSBYTY**

**09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):**
Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633234018

**Wedi 17:00/yn ystod y nos (oedolion)**: Ward C0 01633 493926.
**Wedi 17:00/dros nos (plant):** Ward C1 ar 01633 493609.

**Os bydd argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf**

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English”**